

OWEN, JOHN (1564? - 1628?), epigramydd

Enw: John Owen
Dyddiad geni: 1564?
Dyddiad marw: 1628?
Rhiant: Thomas Owen
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: epigramydd
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
Awdur: John Henry Jones

mab [Thomas Owen](#), Plas Du, Llanarmon, Sir Gaernarfon ([gweler yr ysgrif ar y teulu](#)). Yr oedd yn 'ysgolor' yng Ngholeg Winchester yn 1577, ymaelododd yn New College, Rhydychen, yn 1582, a daeth yn 'jurist fellow' o'r coleg yn 1584; cymerodd radd B.C.L. yn 1590. Bu'n athro ysgol yn Trelech, sir Fynwy, hyd 1595, pryd y daeth yn bennaeth ysgol Warwick. Er i'w ddeg llyfr o epigramau gael eu cyhoeddi rhwng 1606 a 1613 ni wyddys ddim am ei yrfa wedi 1595. Efallai iddo ymddeol o'i swydd a byw ar ei noddwr; efallai, iddo wasnaethu fel penneth yr ysgol yn Warwick hyd flwyddyn ei farw (1628?), gan na enwir neb arall yn brifathro 'r ysgol hyd 1628?; gellir, felly, amau mynegiad Anthony Wood i Owen farw yn 1622. Ymssg ei noddwr yr oedd Lady Arabella Stuart, tywysog Cymru, a Robert Cecil. Bu gwerthu mawr yn eu dydd ar lyfrau epigramau John Owen; aillgraffwyd y casgliad cyntaf (o dri llyfr) ymhen y mis. Serch eu dodi ar yr 'Index Expurgatorius' yr oeddent yn fwy poblogaidd ar y Cyfandir nag ym Mhrydain. Bu iddynt dylanwad arbennig ar Almaenwyr a ysgrifennai epigramau. Cyfeithwyd hwy yn Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, a Sbaeneg.

Awdur

[John Henry Jones](#)

Ffynonellau

- Anthony Wood, *Athenae Oxonienses* (1813–20), i, 400-1
Trafodion Anrhodeddus Gymdeithas y Cymrodorion, 1940, 130-43
Myth Stories of Greece and Rome (Glasgow 1941), x (1941), 65-73
E. Urbanus, 'Owenus u.d. deutschen Epigrammatiker,' yn *Literarhistorische Forschungen*, heft. xi, 1900

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [John Owen](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [41879107](#)

Wikidata: [Q1230607](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nosbarwr
Llyfrgell Cymru
Sponsored by
Welsh Government